# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 11 Tachwedd 2025** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH** |
| **CADEIRYDD** | **Olwen Roberts** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso:**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Olwen Roberts (Cadeirydd CC Pistyll) |
| **1.** | **Gwraig Wadd – Bethan Williams (Oed Cyfeillgar)**<br><br>Roedd Cynghorydd Jina Gwyrfai wedi gwahodd Bethan i'r Cyngor Cymuned ar ôl cyfarfod diddorol yn Babell Llanaelhaearn. Cyflwynodd Bethan Williams wybodaeth am raglen Llywodraeth Cymru sy'n anelu at wneud Cymru yn le da i heneiddio. Mae Bethan yn gyfrifol am ardal Gwynedd. Mae'r rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gyda'r nod o sicrhau bod anghenion a lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed ac yn dylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau. Trafodwyd pwysigrwydd sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad hawdd at wybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys:<br><br>• Budd-daliadau fel Credyd Pensiwn<br>• Gwasanaethau sydd ar gael, e.e. casglu biniau o'r drws os oes gan rywun anhawster i symud y bin i ymyl y lôn<br>• Clybiau a gweithgareddau cymdeithasol<br>• Mynediad at drafnidiaeth gymunedol i allu cyrraedd apwyntiadau meddyg, ysbyty neu ddeintydd ayyb.<br><br>Nodwyd bod gwasanaethau trafnidiaeth o'r math hwn eisoes ar waith mewn sawl ardal yng Ngwynedd, gan gynnwys: Nefyn, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Bethesda a Thywyn. Roedd Bethan yn gweithio hefo BCUHB i cael fwy o wybodaeth ar scrins mewn Meddygfeudd ac Ysbytai pam mae pobl yn disgwyl yn yr ystafell aros. |
| **2.** | **Presennol:**<br>Olwen Roberts (OR), William Jones (WJ), Griffith Jones (GJLJ), Emlyn Williams (EW)<br><br>**Ymddiheuriadau gan:**<br>Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG), Sianelen Pleming (SP), Gethin Jones (GJ), Derek Thomas (DT) noson y cyfarfod<br><br>**Heb datgarn ymddiheuraidau o flaen llaw at y cyfarfod:**<br>Lois Fychan (LF). Osian Williams (OS) ac Ynyr Elis (YE)<br><br>Canllaw Un Lais Cymru 'Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb' - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis'. |
| **3.** | **Datgan diddordeb:** Neb |
| **4.** | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf – Hydref 2025** Chynigodd GJLJ eu bod yn gywir ac eiliodd EW. |
| **5.** | **Materion yn codi:**<br>A) Rhoi rhyngrwyd yn y Ganolfan – pawb yn cyfarfod CCP mis Hydref o blaid.<br>**Penderfyniad:** GJ i edrych i mewn i'r gost o osod rhwydwaith rhyngrwyd yn y Ganolfan. Clerc wedi gweld fod Mantell Gwynedd hefo gwybodaeth grantiau ac gelir fod yn aelod Ymaelodi â Mantell Gwynedd. Mae ymaelodi â Mantell Gwynedd yn agored i unrhyw fudiad gwirfoddol neu gymunedol. Ffî ymaelodi blynyddol i bob grŵp / mudiad - £10.00. EW i siarad hefo Pwyllgor y Ganolfan hefo adborth nhw o cael rhwngrwyd.<br><br>B) Nodwyd fod nifer o Gynghorau Cymuned eraill eisoes â thudalen agored Facebook.<br>**Penderfyniad:** GJ sydd yn gyfrifol am yr tudalen cauedig – rhoi fwy ar Facebook Llithfaen hyrwyddo wefan CCP ac diweddariau sydd cael ei werthredu. Mae tudalen Pistyll Gwynedd sydd i ymwneud a gor adeiladu tai/tai haf y Mhistyll ond nid yw yr tudalen yma wedi diweddaru ers 2021 ond un hefo I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br>C) Bocs Pethau'r cyn Glerc.<br>**Penderfyniad:** I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br>D) Fainc Pistyll / Llithfaen<br>**Diweddariad:** Clerc i archebu dau fainc priodol ar wefan cwmni Glasdon.<br>E) Gordyfiant yn uwch nag erioed wrth 'Raber and Glanaber<br>**Diweddariad:** GJLJ i siarad a perchnogion, mae tua 7 mlynedd ers I'r ardal yma cael ei dori.<br>F) Enwau newydd i arwyddo Sieciau CC Pistyll / System Bancio newydd. |

| | |
|---|---|
| | **Diweddariad:** GJLJ wedi'i ychwanegu fel arwyddwr sieciau ac angen mynd i HSBC hefo ID<br>G) Lon Groes<br>**Diweddariad:** JG- Mae mater arwydd Lôn Groes yn wahanol. Gan fod enw swyddogol/ffurfiol ar y lôn yn barod (sef 'Lôn Bwlch Gwynt Road' mae Priffyrdd yn bryderus y byddai cael arwydd newydd yn gallu achosi dryswch. Y ffordd i osgoi hynny ydi i'r Cyngor fwysiadu'r enw'n ffurfiol. Mae honno'n broses i Priffyrdd eu hunain ei dilyn, does fawr o ddim alla' i ei wneud. Dwi wedi rhoi cais i mewn i wneud hynny ac yn disgwyl iddyn nhw symud ar bethau.' |
| **6.** | **Gwefan CC Pistyll:**<br>Angen diweddaru hefo cofnodion cyfarfodydd |
| **7.** | **Diweddariad Cyllidol gan y Cadeirydd (OR)**<br>Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusennol: £17,972.00 a Cyfrif Cadw: £2,792.90<br>Sylw gan OR (Cadeirydd): Bob dim wedi'i ddiweddaru ac yn gyfredol.<br><br>**Diweddariad Asedau:**<br>• Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll (dan ofal GJ). Cyngor Cymuned Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri newydd.<br>• Gysodfannau Bws (2)<br>• Mainc (2) Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen.<br>• Maes Parcio – Ben Nant<br>• Biniau Baw Ci - 3 ym Mhistyll ac 1 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant.<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **8.** | **Pwyllgor y Ganolfan**<br>Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>**EW** – Dŵr budr yn codi ar y ffordd ger y Siop ers y tywydd sych. Ymddengys bod y 'manhole' yn llawn ac angen cysylltu â Dŵr Cymru.<br>**Penderfyniad:** Clerc i anfon e-bost at Dŵr Cymru i roi gwybod am y broblem. Dwr Cymru wedi bod 09/11/2025.<br><br>OR – Gwteri ar Lon Plas, Lon Nant ac lon drwy pentref hefo gwteri angen glanhau gan Cyngor Gwynedd<br>**Penderfyniad:** Clerc i anfon neges gwaith ar wefan Cyngor Gwynedd i glanhau y gwteri.<br><br>OR – Maes parcio y Ganolfan yn cael ei adnewyddu hefo lleoliadau parcio I'r trigolion lleol sydd yn talu i parcio yno. Fydd gan bob llecyn pacio sydd wedi talu 'bolard' i atal neb arall cymryd y lle.<br>**Penderfyniad**: CCP i rhoi cyfraniad o £1,500.00 tuag at y gost yn uniongyrchol I'r Ganolfan.<br><br>GJLJ – Wedi mynychu diwrnod Sul y Coffa yn Nefyn, ac wedi siomi ar y golwg oedd ar yr golofn gof hefo y plât bras i gofyn am yr dynion lleol a fu farw yn y rhyfeloedd wedi tarthu ac chwyn yn tyfu o am amgylch. Dim yn cofeb priodol.<br>**Penderfyniad:** Clec i anfon e-bost i Cyngor Tref Nefyn i ddiolch am Sul y Cofeb ond i datgan pryder am edrychiad yr golofn gof.<br><br>GJLJ – Mae'r peiriant Di-ffib eisoes wedi talu amdan, ond mae yna dal bocs cyfraniad yn y Siop.<br>**Penderfyniad** - syniad i edrych faint o arian sydd yn y bocs cyfraniad a rhoi tuag at achos arall yn yr pentref |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf:**<br>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth, 9fed o Rhagfyr 2025, am 7.00yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH.<br>***Os ni fyd aelodau yn gallu mynychu angen gadael I'r Clerc neu aelod arall wybod i gallu rhoi ymddiheuriadau o flaen llaw.*** |